# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Dôl-y-wern**

**Leonard Cheshire Disability**
**Dôl-y-wern, Pontfadog**
**Llangollen**
**LL20 7AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21 Gorffennaf 2022

21/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Dôl-y-wern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 27/10/2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a chymorth, yr amgylchedd, nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl y buom yn siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn, ac mae nifer digonol o weithwyr gofal yn cael eu cyflogi. Mae amser bwyd yn brofiad cadarnhaol gyda'r staff gofal yn cynorthwyo'r bobl sydd angen cymorth i fwyta. Mae gweithgareddau i'w gweld yn digwydd yn y cartref trwy gydol y dydd. Mae goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth ar waith gan reolwyr.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn gallu codi a mynd i'r gwely pan fyddant yn dymuno ac mae ganddynt ddewis o ran y bwyd y maent yn ei fwyta. Mae cynlluniau personol y bobl yn gyfredol ac yn adlewyrchiad cywir o'r unigolyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn hapus â'r ystod o weithgareddau sydd ar gael iddynt ac mae ganddynt berthynas dda â'r staff gofal.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu niwed. Mae nifer digonol o weithwyr gofal yn cael eu cyflogi i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan yr uwch-reolwyr ystod gynhwysfawr o archwiliadau ar waith i sicrhau bod Dôl-y-wern yn cael ei redeg yn effeithiol. Gwelsom fod mesurau diogelu ar waith oherwydd y pandemig, gyda masgiau'n cael eu gwisgo, glanhau ychwanegol yn digwydd, a'r gofyn i ymwelwyr ddangos canlyniad prawf COVID-19 negatif cyn mynd i mewn i'r cartref.

## Gofal a Chymorth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae cynlluniau personol y bobl yn gywir ac yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl. Mae cynlluniau personol yn dangos bod gofal a chymorth, fel pwyso'r bobl, yn cael eu rhoi yn rheolaidd gan y gweithwyr gofal. Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y bobl yn cael bath a chawod pan oeddent yn dymuno, a chadarnhawyd hyn gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae cofnodion dyddiol y bobl yn gyfredol. Mae hyn yn dangos bod gan y staff gofal amser i ymgymryd â'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth personol. Gwelsom ddau amser bwyd. Ar y ddau achlysur, roedd digon o staff gofal yn yr ystafell fwyta i'w galluogi i gefnogi'r bobl yn briodol. Gwelsom y gweithwyr gofal yn eistedd gyda'r bobl ac yn eu cynorthwyo i fwyta ac yfed; mae unigolion yn cael gwneud hyn yn eu pwysau ac nid ydynt yn cael eu brysio. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl yn yr ystafell fwyta yn ystod amser bwyd yn dda, ac mae'r awyrgylch yn gadarnhaol a hamddenol. Er bod rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw, a rhai aelodau o'r staff, yn teimlo nad oes digon o weithgareddau i'r bobl, gwelsom weithgareddau'n cael eu cynnal trwy gydol y dydd. Gwelsom staff gofal gyda'r bobl yn y lolfa ar un achlysur yn sgwrsio â nhw ac yn galluogi rhywun i wylio fideo ar sgrin cyfrifiadur wedi'i haddasu'n arbennig, ac yn cymryd rhan mewn cwis y mae'r bobl yn amlwg yn ei fwynhau. Gwelsom hefyd weithwyr gofal yn annog y bobl i ymgymryd â chelf a chrefft. Mae rhai o'r bobl a'r staff gofal y buom yn siarad â nhw yn teimlo nad yw'r bobl yn gallu mynd allan ddigon, er bod eraill yn teimlo y gallant fynd allan. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mynd allan i siopa gyda'r gweithwyr gofal ac wedi mynd am frecwast yn y pentref gyda phreswylydd arall a staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym hefyd eu bod wedi mynd i'r eisteddfod gyda gweithwyr gofal ac i barti pen-blwydd mewn canolfan gymunedol leol. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithgareddau hyn wedi'u cynnal. Gwelsom dystiolaeth hefyd sy'n dangos bod staff gofal yn mynd â'r bobl i apwyntiadau, ac ar adegau i siopa, ym mws mini Dôl-y-wern.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith i gynorthwyo'r gwasanaeth i redeg yn llyfn. Gwelsom fod adolygiad sicrhau ansawdd yn cael ei gynnal ac mae gan uwch-reolwyr yr amser i gynnal a chwblhau ystod eang o archwiliadau rheoli i sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn effeithiol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal a gyflogir mewn niferoedd digonol. Er bod rhai o'r bobl a'r staff y siaradwyd â nhw yn teimlo nad oes digon o staff yn cael eu cyflogi bob amser, mae eraill yn teimlo bod yna ddigon o staff. Mae cofnodion staffio yn dangos bod niferoedd digonol o weithwyr gofal yn cael eu cyflogi; mae'r cofnodion hyn yn unol â'r niferoedd staffio a ddangosir yn natganiad o ddiben y darparwr. Gwelsom hefyd archwiliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n dangos bod lefel y staff yn y cartref yn ddigonol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |
| 6 | Mae staffio yn parhau i fod yn broblem. Dylid sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 30/08/2022